

Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Hall o Benbedw CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC
Canolfan Ddarlledu'r BBC
Portland Place
Llundain W1A 1AA

16 Chwefror 2017

Annwyl Arglwydd Hall

Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

Byddwch yn ymwybodol bod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar sy'n nodi ein safbwyntiau cychwynnol ynglŷn â darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru. Hoffem ddiolch ichi eto am gyfrannu at y gwaith hwn trwy ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2016.

Roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, ac rydym wedi cynnwys isod y rhai sy'n berthnasol i'r BBC.

'Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darlledu am Gymru.'

'Argymhelliad 2. Rydym yn argymell na ddylid bod unrhyw ostyngiad yn y gyfran bresennol o wariant rhwydwaith yng Nghymru, ac y dylai wneud mwy i adlewyrchu a phortreadu cymdeithas a safbwyntiau Cymreig.'

'Argymhelliad 3. Rydym yn cefnogi'r syniad o drefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru ac yn argymell bod y BBC yn darparu'r cyllid angenrheidiol i sicrhau hyn.'

'Argymhelliad 4. O ystyried ein pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y dull y mae'r BBC wedi'i fabwysiadu, rydym yn argymell y dylai'r BBC adolygu'n feirniadol ei chynlluniau i ymgorffori newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau lleol. Rydym yn argymell hefyd fod y BBC yn ystyried buddsoddi mewn gwasanaeth penodol ar gyfer darparu newyddion lleol y gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau'r cyfryngau lleol ar faterion lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, fel newyddion am gynghorau a llysoedd lleol.'



'Argymhelliad 5. Rydym yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod newydd Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawriad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd.'

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r argymhellion hyn erbyn diwedd y dydd ar 13 Mawrth 2017, mewn pryd ar gyfer dadl y Cynulliad ar yr adroddiad ac ar ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

Sylwer ein bod hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Rhodri Talfan Davies er gwybodaeth.

Yn gywir,

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC

Cadeirydd

